# Fforwm Rheoli Tir Cymru

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 1 Mawrth 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Bob Vaughan, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

Tim Kirk, Confor

Sian Thomas, CFfI Cymru

Marc Williams, CNC

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Huwel Manley, CNC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Jan Sherry, PONT (Eitem 4 yn unig)

Emma Douglas, PONT (Eitem 4 yn unig)

Nichola Taylor, CNC (Eitem 6 yn unig)

Russell De'Ath, CNC (Eitem 6 yn unig)

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Ceri Davies, CNC

Martyn Evans, CNC

Ruth Jenkins, CNC

Steve Ormerod, CNC

Mark Alexander, LlC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau.
2. Cyflwynodd y Cadeirydd Bronwen Martin i Fforwm Rheoli Tir Cymru fel Ysgrifenyddiaeth newydd y Fforwm. Cyflwynodd Bronwen ei hun yn gryno.
3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.
4. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

5. Adolygodd y Grŵp y cofnodion o gyfarfod mis Rhagfyr 2020, a chymeradwyo eu bod yn gofnod cywir.
6. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin ac adolygodd y grŵp y Log Gweithredu. Nodwyd y sylwadaethau canlynol:
    - Mai PG03: CNC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun rheoli hirdymor (John Browne, CNC).

- Rhoddodd John Browne, CNC, ddiweddariad ysgrifenedig ar y pryd sydd wedi'i fabwysiadu fel 'busnes fel arfer', a disgwylir iddo gael ei adolygu ar ôl 5 mlynedd. Derbyniwyd mwy o ddiddordeb gan Goedwigaeth Tilhill a Coed Cadw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus iawn i Reoli Coetiroedd ac mae ganddi adran ar dargedau creu coetiroedd a rheoli coetiroedd presennol yn y Papur Gwyn Amaeth. Mae cael rhyw fath o system grantiau a chymorth ar gyfer cynllunio hirdymor yn edrych yn gadarnhaol.

- Dywedodd Tim Kirk, Confor, fod 'coetir heb ei reoli' yng Nghymru yn eitem gyffredin, ond nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud yn ei gylch. Mae gwir angen i ni ddeall beth yw ystyr 'coetir heb ei reoli' a ble mae'r mecanwaith sy'n nodi'r camau angenrheidiol. Mae Bob Vaughan, CNC, yn croesawu cael sgwrs gyda Tim Kirk i bennu beth y gellir ei wneud.

***PG 01 Mawrth: Marc Williams, CNC, i ailddosbarthu'r wybodaeth am y Cynllun Rheoli Coedwigoedd hirdymor***

***PG 02 Mawrth: Bob Vaughan, CNC, a Tim Kirk, Confor, i drafod 'coetir heb ei reoli' a gweld beth y gellir ei wneud***

- Mai PG05: Martyn Evans i sefydlu cyfarfod i drafod Datganiadau Ardal gyda'r Arweinwyr Datganiadau Ardal a Confor.

  - Dywedodd Anthony Geddes, Confor, fod trafodaeth wedi cychwyn, gyda rhai camau gweithredu wedi'u codi, ond nad yw hyn wedi datblygu. Maent yn ystyried datblygu adnodd coedwigaeth y gall timau Datganiad Ardal ymgysylltu ag ef a'i ddefnyddio, yn y Canolbarth i gychwyn.

***PG 03 Mawrth: Huwel Manley, CNC, i gysylltu Anthony Geddes, Confor, â thîm Datganiad Ardal y Canolbarth i helpu i ddatblygu hyn a threialu adnodd coedwigaeth.***

- Medi PG04: Bob Vaughan i drafod yr amserlenni gyda James Owen a threfnu gweithdy i gydgysylltu syniadau a thystiolaeth.

  - Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod Ruth Jenkins, CNC, bellach yn eistedd ar y grŵp prosiect sy'n edrych ar y rhaglen ac wedi gofyn a yw James Owen am ddod i'r grŵp. Mae heriau o ran adnoddau wedi atal gosod unrhyw ddyddiadau ar gyfer gweithdy. Mae'r eitem hon yn dal i fod ar agor, ond mae cynnydd yn cael ei wneud.

- Rhagfyr PG01: Rachel Lewis-Davies i wahodd Dr Ceris Jones i gyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol.

  - Mae hwn yn bwynt gweithredu parhaus, gyda'r posibilrwydd y bydd Dr Ceris Jones yn bresennol yng nghyfarfod mis Mehefin 2021. Bydd Bronwen Martin, CNC, yn cysylltu â Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, ynghylch cyfarfod mis Mehefin Fforwm Rheoli Tir Cymru.

- Rhagfyr PG04: Rhannu gwybodaeth am safbwyntiau CNC ynglŷn â datblygiadau cynlluniau i'r aelodau yn y dyfodol.

- Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod y pwynt gweithredu hwn yn cyfeirio at y safbwyntiau a oedd yn cael eu datblygu i fwydo i mewn i Lywodraeth Cymru fel rhan o ddatblygiad y Papur Gwyn Amaeth a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mabwysiadwyd dull 'un llais' lle bu'n rhaid cynnal llawer o drafodaethau mewnol i gasglu gwybodaeth ynghyd. Nid yw hyn wedi'i ddatblygu eto ond bydd Bob Vaughan, CNC, yn dechrau gweithio ar hyn a bydd yn rhannu'r hyn sydd gennym.

- Rhagfyr PG06: CNC i roi briff byr i NFU Cymru ar hysbysiadau coed llarwydd i'w dosbarthu i'w aelodau.

  - Rhoddodd John Browne ddiweddariad byr ynglŷn â chamau gweithredu gan Chris Jones ac Andy Wright, a dywedodd fod gwybodaeth am goed llarwydd wedi'i chyhoeddi ers 2010. Trafodwyd diweddariad posibl yn y wasg ffermio hefyd.

***PG 04 Mawrth: Marc Williams, CNC, i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hysbysiadau coed llarwydd a'i hanfon at Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, i'w dosbarthu i'w aelodau.***

- Rhagfyr PG07: Ychwanegu draenio cynaliadwy at agenda'r cyfarfod nesaf.

  - Gofynnodd Bronwen Martin, CNC, i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ynghylch arbenigwr posibl i ymuno â'r cyfarfod nesaf i drafod draenio cynaliadwy (SDCau). Soniodd Anthony Geddes fod ganddo gysylltiad y gall ei rannu, a dywedodd hefyd fod y pwnc hwn yn parhau i fod yn berthnasol i goedwigaeth a ffermio. Awgrymodd Huwel Manley y dylid dod â pheirianydd CNC i mewn i drafod. Soniodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, mai deddfwriaeth SDCau yn benodol ydyw o safbwynt ffermio a sut y caiff ei chymhwyso mewn cyd-destun ffermio a gwledig, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu deddfwriaeth SDCau o fewn dwy flynedd i'w chyflwyno ond nad yw'r sefyllfa ddiweddaraf yn hysbys. Soniodd Huwel Manley fod CNC hefyd yn wynebu'r un broblem ar yr Ystâd Goetir. O ran y ddeddfwriaeth, mae sawl meddylfryd; un fantais bosibl o fynd drwy'r broses yw ei fod yn eithrio fferm o lifogydd dŵr wyneb pe bai eiddo cyfagos yn cael ei effeithio'n anfwriadol, adeilad fferm newydd / llwybrau gwartheg yn ystod storm. Mae CNC hefyd yn ymwybodol bod gan Awdurdodau Lleol ymagwedd wahanol at weithredu ac amserlenni.

  - Soniodd Anthony Geddes, Confor, ei fod yn dal i ddisgwyl ychydig mwy o fanylion gan Andrew Sherlock (Rheolwr Rheoli Dŵr a Chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru) ond mae'r penawdau'n cynnwys:

    - Grŵp Ymgynghori CLlLC sy'n cael ei redeg gan Jean-Francois Dulong.

    - CNC oedd un o ysgogwyr y grŵp hwn gan fod y corff wedi cael trafferth gyda gwahanol ddulliau'r Awdurdod Lleol.

    - Mae'r Grŵp yn ceisio dod o hyd i broses fireinio bragmatig sy'n seiliedig ar risg ar gyfer deddfwriaeth SDCau.

- Gellir datblygu unrhyw gasgliad y daw’r grŵp iddo yn y canllawiau heb fod angen newid y Ddeddf. Y potensial i esemptiad coedwig gael ei ystyried yn y fforwm hwn.

- Bwriedir i'r adolygiad deddfwriaethol gychwyn ar ôl mis Mai 2021, gyda mandad adolygu i gael ei roi ar waith ym mis Chwefror 2022.

- Mae Is-adran Dŵr a Llifogydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar Fil SDCau ar gyfer Cymru.

***PG 05 Mawrth: Bob Vaughan, CNC, ac Anthony Geddes, Confor, i drafod draenio cynaliadwy a rhannu gyda'r grŵp yn y cyfarfod nesaf.***

- Rhagfyr PG08: Zoe Henderson a Chris Blake i friffio Syr David Henshaw ar yr adroddiad, ac a allai hyn fod yn flaenoriaeth o dan yr Adferiad Gwyrdd.

  - Soniodd Zoe Henderson, CNC, fod Chris Blake wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd, ond bydd hyn yn cael ei symud ymlaen.

- Rhagfyr PG10: Ychwanegu'r Adferiad Gwyrdd at agenda'r cyfarfod nesaf.

***PG 06 Mawrth: Bob Vaughan, CNC, i siarad â Sarah Williams a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adferiad Gwyrdd i'r grŵp yng nghyfarfod mis Mehefin.***

***PG 07 Mawrth: Bronwen Martin, CNC, i ychwanegu'r Adferiad Gwyrdd at agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.***

## Eitem 3 Trafodaeth i symud Fforwm Rheoli Tir Cymru yn ei flaen

7. Ddydd Iau 25 Chwefror, anfonwyd arolwg at yr aelodau sy'n cynnwys deg cwestiwn. Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd eisoes wedi cwblhau'r arolwg, ond mae wir am annog pawb i roi o'u hamser i lenwi cymaint â phosibl neu anfon e-bost at Bronwen gyda sylwadau pellach.

8. Esboniodd Bronwen Martin, CNC, ddiben yr arolwg yn gryno. Nod yr holiadur yw deall yn well yr hyn mae'r aelodau am ei gael o'r Fforwm a dod o hyd i ffyrdd o wella a symud ymlaen.

9. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau ar y posibilrwydd o ehangu aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod sawl sefydliad gwahanol wedi cysylltu â'r grŵp yn gofyn am gael ymuno â'r Fforwm dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd, mae gan y grŵp aelodaeth gref iawn o gynrychiolwyr o blith y rhai sy'n rheoli'r tir o ddydd i ddydd yn hytrach na'r rhai sy'n rheoli'r tir megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Dŵr Cymru. Rydym wedi gweithredu rheol eithaf llym ynglŷn ag aelodaeth, ond gellid ystyried a yw'r rheol honno'n dal i fod yn ddichonadwy neu a ddylem ehangu aelodaeth y grŵp.

10. Soniodd John Browne, CNC, fod cyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhyngweithio yn rhan bwysig o unrhyw grŵp. Byddai'n braf edrych ymlaen at ryngweithio â rheolwyr tir pan fydd gennym fwy o opsiynau o'n blaenau.

11. Roedd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, yn meddwl tybed a yw'r arolwg yn ystyried sut mae'r Fforwm yn gweithio ochr yn ochr â fforymau eraill er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion. Nododd y Cadeirydd fod rhai aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru yn aelodau o grwpiau eraill hefyd.

12. Soniodd Rachel Lewis-Davis, NFU Cymru, fod angen i wahanol grwpiau fod â'u diben eu hunain. Nid yw'r Aelodau am fynd o gyfarfod i gyfarfod yn trafod yr un pynciau, ac nid yw dyblygu ymdrech yn ddefnydd da o amser. Mae ystyried diben Fforwm Rheoli Tir Cymru yn bwysig ac mae ei osod yn ei gyd-destun priodol yn ddefnyddiol iawn. Mae'r Fforwm yn ymwneud â chyfnewid gwybodaeth ac mae'n fforwm defnyddiol i ddeall pa ffrydiau gwaith y mae CNC yn eu datblygu ar sail 'dim byd annisgwyl'.

13. Cytunodd Marc Williams, CNC, nad ydym am ddyblygu unrhyw ymdrechion a bod CNC yn fewnol yn trafod gyda Fforymau eraill i sicrhau nad yw'r agendâu yn dyblygu gwybodaeth ac y gellir darparu diweddariad fel na chaiff yr un trafodaethau eu cynnal mewn sawl grŵp. Soniodd Bob Vaughan, CNC, fod cydweithwyr yn mynd i gyfarfodydd Fforymau eraill i weithredu fel cyswllt ac i helpu gydag adborth.

14. Soniodd Dennis Matheson, TFA, nad oes unrhyw ffermwyr ymhlith y rhanddeiliaid a luniodd y ddogfen Adferiad Gwyrdd. Dywedodd y Cadeirydd nad hepgor ffermwyr oedd y bwriad, ond yn hytrach cael safbwyntiau pobl o wahanol gefndiroedd, gyda chynrychiolwyr eraill yn cael eu defnyddio i roi safbwynt ac ymagwedd wahanol.

15. Gofynnodd Bronwen Martin, CNC, a allai'r aelodau gwblhau'r arolwg o fewn y pythefnos nesaf, erbyn 15 Mawrth 2021. Anogir aelodau i ychwanegu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill naill ai drwy'r arolwg neu yn uniongyrchol at Bronwen drwy e-bost.

***PG 08 Mawrth: Gofynnir i bob aelod gwblhau arolwg Fforwm Rheoli Tir Cymru erbyn 15 Mawrth 2021 a dychwelyd unrhyw sylwadau ychwanegol at Bronwen drwy e-bost.***

16. Soniodd Fraser McAuley, CLA, y dylai rhanddeiliaid a sefydliadau rannu'r hyn y maent yn ei wneud gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru o hyn ymlaen. Cytunodd y Cadeirydd a soniodd fod aelodau'n cael eu hannog i ychwanegu eitemau at yr agenda a/neu godi pynciau yn y cyfarfodydd.

## Eitem 4 Cyflwyniad PONT

17. Croesawodd y Cadeirydd Jan Sherry ac Emma Douglas o PONT i'r cyfarfod a'u cyflwyno'n gryno. Jan yw'r Uwch-reolwr (Ecoleg) ac mae'n arwain ar gyngor bioamrywiaeth a chynefinoedd o fewn PONT, yn ogystal â bod â chyfrifoldebau rheoli ychwanegol, gan gynnwys rheoli contractau a phrosiectau. Cyn hynny, bu Jan yn gweithio i Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac, yn ddiweddarach, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am 15 mlynedd fel Ecolegydd Rhostir ac, yn ddiweddarach, yn cwmpasu cynefinoedd ucheldirol ehangach. Emma yw Swyddog Datblygu'r De ac mae'n hwyluso pori a rheolaeth gysylltiedig ar draws y De er budd ffermwyr, cymunedau a natur. Cafodd Emma ei magu ar Benrhyn Gŵyr ac mae'n parhau i helpu i redeg buches fechan o wartheg Duon Cymreig a cheffylau ar fferm y teulu. Mae Emma yn ymgymryd â phori er lles cadwraeth gyda'i merlod a'i gwartheg Dexter ei hun ac mae'n rhedeg ei busnes bach llwyddiannus ei hun 'Gower Meadows Beef'.

18. Soniodd y Cadeirydd fod cyflwyniad PONT yn cysylltu'n dda â'r anerchiad a roddwyd i'r Fforwm ym mis Rhagfyr 2020 gan Mydrian Harries, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch tanau glaswellt bwriadol yng Nghymru.

19. Rhannodd Jan weledigaeth Pont i hyrwyddo pori amgylcheddol gynaliadwy sy'n dod â manteision lluosog i fywyd gwyllt, amaethyddiaeth a phobl nawr ac i'r dyfodol. Mae PONT yn sefydliad pori nid-er-elw sy'n cynnwys pum aelod o staff, gyda thri ohonynt yn ffermwyr.

20. Rhoddodd Jan drosolwg o bori er lles cadwraeth a ddiffiniwyd fel pori er budd bywyd gwyllt, tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn ogystal â bod yn bwysig o safbwynt amaethyddol. Mae ein tirwedd a'n cynefinoedd bob amser wedi'u llywio gan lysysyddion, a heddiw mae da byw (gwartheg, merlod, defaid a geifr) yn cael eu defnyddio fel procsi ar gyfer llysysyddion cynhanesyddol diflanedig.

21. Mae pori'n bwysig ar gyfer:

- Amaethyddiaeth – cadw'r sector i fynd
- Cadwraeth – rhywogaethau
- Tirwedd – wedi'i lywio gan dda byw sy'n pori
- Dal a storio carbon – mwy o dystiolaeth o dir pori a reolir yn dda
- Mynediad – cadw llwybrau troed a llwybrau ceffylau yn hygyrch
- Cymuned – galluogi pobl leol i ddefnyddio tir mynediad agored
- Yr economi leol – cefnogi'r economi amaethyddol
- Diogelwch tân – rheoli tir
- Traddodiad – traddodiadau ffermio

22. Mae pori a rheoli da byw yn cael eu cofnodi fel problemau a risgiau ar 70% o safleoedd N2K sy'n effeithio ar 64% o gynefinoedd. Felly, mae pori'n hanfodol er mwyn cael safleoedd gwarchodedig i gyflwr da, er enghraifft, y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Sir Benfro sy'n cael ei bori'n briodol ac, o ganlyniad, yn y Gwanwyn gwelir arddangosiad gwych o sêr y gwanwyn na fyddai yno pe na bai'r ardal yn cael ei phori.

23. Mae PONT yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar atebion sy'n darparu:

- Cyngor arbenigol – asesiadau safle, astudiaethau dichonoldeb pori, cynlluniau rheoli pori, cynlluniau seilwaith, costau, arolwg ecolegol a monitro a dod o hyd i dda byw a phorwyr ar gyfer safleoedd
- Datrys problemau a goresgyn rhwystrau
- Gwneud pori er lles cadwraeth yn hyfyw
- Hyfforddiant proffesiynol a chymunedol

- Meithrin cydberthnasau.

24. Mae PONT yn gweithio gyda CNC, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol, tirfeddianwyr unigol, grwpiau cymunedol a phrosiectau a ariennir e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri, y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS), y Gronfa Loteri Fawr.

25. Rhannodd Jan brosiect yn cynnwys Bugeilio ar Fynydd Tŵr (Caergybi) a gwartheg mewn buches ar Gomin Aberffraw. Aeth PONT ati i edrych ar yr opsiynau posibl, rhoi cyngor a dod o hyd i'r stoc a'r porwr cywir.

26. Soniodd Emma am bwysigrwydd datrys problemau gan gynnwys mynediad a chŵn, tanau bwriadol, ffyrdd, ymwrthedd cymunedol i dda byw a gwirio stoc. Mae PONT wedi gwneud llawer o waith ar Warchodfa Natur Genedlaethol Cynffig sy'n safle o bwys rhyngwladol gan mai yno mae'r boblogaeth gryfaf o degeirian y fign galchog yn y DU. Mae'r prif heriau ar gyfer y safle hwn yn gysylltiedig â mynediad cyhoeddus a da byw, gan gynnwys digwyddiadau poeni defaid. Datblygwyd cysyniad o'r enw 'Bugail Digidol' a oedd yn cynnwys digwyddiad ymwybyddiaeth gyda sioe gŵn, a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r rhai yn y gymuned cerdded cŵn i dda byw. Defnyddiwyd treial coleri ar y safle hwn hefyd i olrhain defaid a oedd yn gysylltiedig ag ap i helpu'r cyhoedd i osgoi'r defaid wrth gerdded. Mae PONT wedi datblygu ymgyrch addysg drwy fynd â defaid i ysgolion i gyflwyno plant i dda byw. Mae PONT wedi ymgysylltu â'r gymuned cerdded cŵn leol a cherddwyr cŵn masnachol i'w hannog i ddod yn wardeiniaid drwy ymarfer ymddygiad da a pharchu'r da byw.

27. Mae PONT yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar brosiect partneriaeth 'Llethrau Iach'. Mae pori da byw yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o danau gwyllt gan fod safleoedd heb eu pori yn cyflwyno llwyth tanwydd enfawr. Mae PONT wedi gweithio ar ailgyflwyno pori da byw i safleoedd, yn enwedig yng Nghymoedd y De. Mae da byw yn helpu i gynhyrchu brêc rhag tân drwy greu llwybrau, a phan fydd hyn wedi'i gysylltu â naill ai llosgi neu dorri dan reolaeth, gall pori ar ôl hynny arwain at ostyngiad sylweddol yn y llwyth tanwydd a'r risg o danau trychinebus. Bob blwyddyn, mae PONT yn ymuno â'r Gwasanaeth Tân ar eu taith 'Paid â llosgi Bernie' drwy fynd ag ŵyn i ysgolion yn y Cymoedd. Maent yn siarad â'r plant am bwysigrwydd peidio â chynnau tân ar fryniau, yn eu haddysgu am y da byw y gellid effeithio arnynt, yn trafod sut mae'r da byw yn helpu i atal tanau ac yn esbonio pa mor beryglus yw tanau i fywyd gwyllt, yr amgylchedd a chymunedau.

28. Mae llawer o waith wedi'i wneud ar Gomin Rhos sy'n safle pwysig iawn ar gyfer Glöynnod Byw Brith y Gors. Mae'r glöynnod byw hyn wedi dirywio gan fod pori gwartheg wedi dod i ben oherwydd nifer y marwolaethau gwartheg ar y ffordd brysur iawn sy'n rhedeg drwy'r Comin. Datblygwyd ymgyrch ymwybyddiaeth i ymgysylltu â'r gymuned leol a helpu i'w haddysgu am bwysigrwydd pori i boblogaeth Glöynnod Byw Brith y Gors. Cyflwynwyd treial o 'system ffensio heb ffens', lle mae gwartheg yn gwisgo coleri ac wedi'u hyfforddi i droi pan fyddant yn cyrraedd terfyn eu ffin. Mae hon yn ffordd effeithiol o atal y da byw rhag mynd yn rhy agos at y ffordd. Bydd System Geoffensio debyg hefyd yn cael ei threialu lle mae'r coleri'n cael eu rheoli gan GPS a gellir eu cysylltu ag ap i olrhain yr anifeiliaid.

29. Mae ymwrthedd cymunedol i bori wedi'i brofi lle nad yw pori wedi'i ymarfer ers amser maith. Nid oedd Owrtyn Mere wedi'i bori am 36 mlynedd, ac roedd y glaswelltir calchfaen a'r rhostir arfordirol yn dirywio. Mae'r ardal yn boblogaidd iawn i gerddwyr

cŵn. Cynhaliwyd digwyddiad i ymgysylltu â'r gymuned leol a chyflwyno'r syniad o ailgyflwyno pori iddynt. Defnyddiwyd sawl dull i oresgyn heriau gan gynnwys arwyddion priodol, rhybudd ymlaen llaw i bobl leol a bridiau bach a thawel (merlod Mynydd Cymreig a gwartheg Dexter) yn cael eu dewis i bori. Ers ailgyflwyno pori, mae'r cynefin wedi gwella. Un her sy'n weddill yw faint o faw cŵn sy'n cael ei adael ar ôl.

30. Mae gan Loegr y Cynllun Stiwardiaeth Lefel Uwch (HLS) sy'n aml yn ariannu pori er lles cadwraeth ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn Glastir i'r un graddau. Felly, mae angen gwneud pori er lles cadwraeth yn hyfyw yn ariannol yng Nghymru. Mae gwasarn rhostir wedi'i dreialu ym Mhenrhyn Llŷn, Ynys Môn ac ar arfordir Penfro. Mae llawer o fanteision i ddefnyddio gwasarn rhostir, gan gynnwys rheoli llystyfiant rhostir a chaniatáu iddo adfywio, gwasarn costeffeithiol ar gyfer gwartheg (sy'n llawer rhatach na gwellt) sy'n draenio'n dda ac yn cadw gwartheg yn lân a manteision cadwraeth natur, gan gynnwys creu brêc rhag tân a lleihau llwyth tân a'r risg o dân.

31. Mae brand sy'n ystyriol o fywyd gwyllt wedi'i ddatblygu gyda ffermwyr ar Ynys Môn. Roedd y cynllun yn cynnwys marchnata cynnyrch, brandio, llwybrau i'r farchnad, siopau fferm a chynlluniau bocs a gweithio gyda'r Pasture Fed Livestock Association.

32. Rhoddodd Jan drosolwg o Gynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) Llywodraeth Cymru, sef Talu am Ganlyniadau Partneriaeth Llŷn, gyda thair fferm denant. Mae PONT wedi helpu i ddyfeisio canlyniadau cynefinoedd a system sgorio ar gyfer y prosiect. Mae'n cefnogi'r ffermwyr ac yn eu helpu i wella eu sgôr a monitro cynnydd drwy gydweithio. Mae'r cynllun hwn wedi dangos bod yr holl ffermydd wedi cynyddu eu sgoriau, gan dderbyn cynnydd yn y taliadau ac, o ganlyniad, gwell allbynnau bioamrywiaeth.

33. Mae PONT hefyd yn darparu hyfforddiant proffesiynol a chymunedol, gan gynnwys:

- Deall pori da byw – gweithio gyda ffermwyr
- Pori er lles cadwraeth
- Cwrs Gwirwyr Stoc achrededig Lantra – ardystiedig
- Cyrsiau rheoli cynefinoedd
- Hyfforddiant cymunedol

34. Diolchodd y Cadeirydd i Jan ac Emma am eu cyflwyniad diddorol ac am ddangos sut y gall ffermio, pori, cadwraeth a'r amgylchedd ddod at ei gilydd. Dechreuodd y Cadeirydd y sesiwn holi ac ateb a gofynnodd sut mae PONT yn cael ei ariannu. Esboniodd Jan fod PONT yn cael ei hunan-ariannu drwy brosiectau a gwaith contract.

35. Soniodd John Browne, CNC, ei bod hi mor bwysig cydnabod pwysigrwydd pori detholus mewn coetiroedd, ac mae angen bod yn ymwybodol o'r cynnydd mewn risg tân gyda choetiroedd newydd yn eu cyfnod sefydlu (gan fod pori isel/dim pori a'r glaswelltau'n dod yn risg tân).

36. Gofynnodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, a ellid rhoi syniad o faint o dir yng Nghymru mae PONT yn cyfrannu at ei reoli ar hyn o bryd. Nododd Bernard hefyd ei bod hi'n wych bod PONT yn gweithio gyda ffermwyr, ond mae llawer o ffermwyr hefyd yn ymwneud yn helaeth â sicrhau manteision cadwraethol gyda phethau fel

Glastir a chynlluniau eraill. Esboniodd Jan ei bod yn eithaf anodd dweud faint yn union o dir mae PONT yn ymwneud ag ef, gan ei fod yn dibynnu ar brosiectau presennol. Ar hyn o bryd, mae PONT yn gweithio ar tua 30 safle yn ardal Machynlleth, mae Emma yn gweithio ar holl Dir Comin Gŵyr, mae tua 20 safle ar Ynys Môn hefyd, blociau mawr o dir fel y Mynydd Du yn Sir Gâr, y Mynyddoedd Duon i'r dwyrain o Fannau Brycheiniog a thua 40 safle yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Daeth Jan i'r casgliad bod PONT yn gweithio ar lawer o safleoedd sy'n amrywio o ran maint.

37. Gofynnodd Hedd Pugh, NFU Cymru, beth yw hyd y cynllun SMS ym Mhenrhyn Llŷn. Dywedodd Jan mai prosiect 3 blynedd ydoedd i gychwyn, ond mae Cyngor Sir Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn edrych ar ffyrdd eraill o ddod ag arian i mewn fel bod y ffermwyr yn parhau i gael cymorth.

38. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, am brosiect o ychydig flynyddoedd yn ôl a oedd yn cynnwys mynd â grŵp o ffermwyr a phorwyr o'r Mynyddoedd Duon i Cumbria i ddysgu am symud defaid. Soniodd Emma fod y prosiect hwnnw'n cael ei sbarduno gan y Sefydliad Tir Comin, ac mae PONT wedi mynd â phobl i weld prosiectau a chynlluniau eraill mewn ardaloedd eraill sydd wedi bod yn eithaf llwyddiannus.

39. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, a yw PONT yn gwneud llawer o waith gan ddefnyddio defaid sy'n pori ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth. Dywedodd Jan fod PONT yn defnyddio defaid hefyd, yn hytrach na gwartheg yn unig, yn enwedig ar gyfer cynefinoedd glaswelltir. Siaradodd Emma am y gwaith a wnaed gydag Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Llanelli, lle dim ond un pâr o gornchwiglod oedd yn weddill yn 2017. Er mwyn cynyddu'r niferoedd cornchwiglod, defnyddiwyd sawl dull, gan gynnwys torri coed i lawr i atal brain rhag targedu’r cywion cornchwiglen, mynd â defaid i'r ynys 2 hectar i gadw'r prysgwydd dan reolaeth a defnyddio gwartheg i bori yn yr ardal ehangach a merlod i bori yn y gaeaf. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda niferoedd cornchwiglod yn cynyddu i tua 22 pâr y llynedd. Mae defaid yn cael eu defnyddio hefyd ar gyfer pori adladd ar weirgloddiau blodau gwyllt a, phan gânt eu rheoli'n ofalus, mae defaid yn arf defnyddiol i helpu i gadw prysgwydd i lawr.

40. Gofynnodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, am y Cynllun Talu am Ganlyniadau, a meddyliodd tybed a fyddai ffermwyr yn cael eu cosbi os na gyflawnwyd y canlyniadau am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth megis y tywydd, hyd yn oed os ydynt wedi dilyn yr holl gyngor a chanllawiau sydd ar gael. Dywedodd Jan nad yw cosbau'n cael eu rhoi yn y system hon, bod ffermwyr yn cyflawni'r canlyniadau y gallant ac yna'n cael eu talu am y canlyniadau hynny. Weithiau, mae ffermwyr yn hapus i gyflawni sgôr benodol ac eistedd ar y taliad hwnnw.

41. Gofynnodd Anthony Geddes, Confor, a yw PONT wedi gwneud unrhyw waith ynghylch tanbori mewn coetiroedd llydanddail brodorol neu goetiroedd cymysg i weld pa ganlyniadau sy'n bosibl. Mae PONT wedi gwneud llawer o waith gyda phori mewn coetiroedd ac, ar hyn o bryd, maent yn ymwneud yn helaeth â'r Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd sy'n ceisio cynnwys pori yn y cynllun. Gan fod mwy o goetiroedd yn cael eu plannu a'u ffensio, ni fydd y budd mwyaf yn cael ei gyflawni oni bai eu bod yn cael eu pori. Dilynodd Anthony hyn drwy ofyn a yw PONT wedi cael mynediad at unrhyw gynlluniau creu coetiroedd newydd o dan Glastir, gan na chaniateir cyd-bori, a meddyliodd tybed a yw PONT wedi cyflw#yno cynnig i ddangos manteision defnydd tir integredig. Dywedodd Jan y bydd angen mynd i'r afael â hyn gan fod mwy o goetiroedd

yn cael eu ffensio. Dylid hefyd ystyried porfeydd coediog sy'n gynefin pwysig yng Nghymru.

42. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, a yw PONT wedi gwneud unrhyw dreialon neu waith ar amaethgoedwigaeth wirioneddol sy'n cynnwys rhesi o gnydau rhwng rhesi o goed, gan mai dyma'r unig fath o goetir y gallai tenant osgoi cael ei gosbi amdano o bosibl, heb ofyn am ganiatâd y Landlord gan ei fod yn debygol o gael ei ystyried yn amaethyddiaeth. Dywedodd Jan ac Emma nad oes unrhyw faterion wedi'u codi ynglŷn â'r pwnc hwn ond y gellid ymchwilio iddo. Dywedodd Emma fod gan y Pasture-Fed Livestock Association (PFLA) sawl fferm yn Lloegr a'r Alban sy'n ymarfer amaethgoedwigaeth. Dilynodd Dennis hyn drwy sôn ei bod hi'n flwyddyn ragorol i fes a'i fod wedi colli rhai da byw i'r mes. Soniodd Jan fod rhaid i chi fod yn ofalus gyda cheffylau a masarn. Mae materion y mae angen edrych arnynt o ran pori, ond mae pori gwartheg wedi bod yn llwyddiannus iawn.

43. Gofynnodd y Cadeirydd i Jan ac Emma beth maent ei eisiau gan y grŵp, ar wahân i gyfathrebu. Soniodd Jan am ymwybyddiaeth o PONT, y gwaith y mae’r corff yn ei wneud a bod pobl yn gwybod bod PONT ar gael i helpu a chefnogi. Mae meysydd polisi allweddol y mae angen edrych arnynt fel Future Agri, treialon posibl fel prosiect Llŷn a materion sy'n ymwneud â chreu coetiroedd. Dylid hefyd ystyried porfeydd coediog yn y dyfodol wrth feddwl am blannu coetiroedd.

## Eitem 5 Diweddariad CNC

44. Rhoddodd Bob Vaughan, CNC, yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion amserol. Cyn y cyfarfod, gofynnir i aelodau'r Fforwm awgrymu pynciau ar gyfer diweddariadau CNC yn y dyfodol.

45. **SoNaRR:** Mae CNC wedi cyhoeddi adroddiadau cryno yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ym mis Rhagfyr 2020. Cyhoeddir y prif adroddiad ar gyfer pob un o'r ecosystemau a'r themâu y mis hwn ar 18 Mawrth 2021, a bydd yn rhoi llawer mwy o fanylion. Mae CNC wedi derbyn rhai cwestiynau gan rai o'r aelod-sefydliadau am y penodau a gyhoeddwyd eisoes, ac mae CNC wrthi'n darparu sylwadau, ond dylai'r penodau manylach yn yr adroddiad llawn ddarparu atebion i'r ymholiadau hyn.

46. **Afonydd ACA:** Mae CNC wedi darparu datganiad ym mis Ionawr 2021 yn dilyn yr adroddiad ar ddalgylch afon Gwy. Mae'r adroddiad newydd hwn yn cynnwys pob un o'r 9 afon ACA ledled Cymru ac yn edrych ar y targedau ffosffad tynnach newydd ar gyfer yr afonydd hyn. Mae sawl afon yn y Gogledd-orllewin yn agos at y lefelau targed hyn, ond mae afonydd Dyfrdwy, Teifi, Cleddau, Wysg a Gwy yn dangos sawl corff dŵr sy'n methu yn y dalgylchoedd hyn. Llwyddodd y pedair afon ACA arall yng Nghymru, sef Eden, Gwyrfai, Glaslyn a Tywi, i ragori ar eu targedau. O ganlyniad, mae trafodaethau manwl gydag Awdurdodau Lleol yn cael eu cynnal ynghylch cynllunio i'r dyfodol, ond rydym hefyd yn gwneud llawer o waith mewnol i geisio gyrru'r dalgylchoedd hyn i lawr i'r targedau newydd. Nid yw achos y llygredd yn arbennig o hysbys, ond mae gwaith monitro ar waith i sefydlu beth yw'r lefelau. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod amrywiaeth o ffynonellau'n cyfrannu at y lefelau ffosffad, gan gynnwys amaethyddiaeth, gwaith carthffosiaeth, tanciau septig a gweithgareddau eraill o fewn y dalgylchoedd. Mae dolen i wefan CNC i gael rhagor o wybodaeth isod:

https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=cy

47. **Tipiau Glo**: Mae llawer o waith wedi'i wneud yn y De yn ystod y 12 mis diwethaf ar Dipiau Glo. Sefydlwyd tasglu a sbardunwyd yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo. Mae CNC hefyd wedi bod yn edrych ar nifer y tipiau mae gennym ni gyfrifoldeb drostynt, sy'n cynnwys 113 o dipiau glo ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru mae CNC yn gofalu amdanynt. Mae'r Awdurdod Glo wedi bod yn llunio syniad gwell ac ehangach o leoliad yr holl dipiau glo hyn. Yn y dyfodol, maent yn debygol o ehangu'r rhestr honno i edrych ar safleoedd nid yn unig yn y De ond ledled Cymru a fydd hefyd yn cynnwys tomenni rwbel chwareli a mwyngloddiau metel. Mae'r ffocws hyd yma wedi bod yn y De lle maent wedi dod o hyd i dros 2,200 o domenni rwbel. Mae asesiadau risg wedi'u neilltuo i bob un o'r rhain, gydag oddeutu 80 neu 90 yn y categori risg uchaf, ac mae gwaith yn cael ei wneud i ddeall a rheoli'r risgiau. Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Glo i sicrhau bod ein safleoedd ledled Cymru mewn cyflwr da, mae gennym tua 6 yn y categori uchaf ac mae gan bob un ohonynt gontract gyda'r Awdurdod Glo i'w hadolygu'n rheolaidd a chontract gyda chwmni sy'n mynd allan i atgyweirio'r mater sydd wedi'i nodi. Mae digwyddiadau mis Chwefror 2020 yn dangos na allwn ni fod yn hunanfodlon ynglŷn â'r materion hyn, gan y gall tipiau symud yn gyflym pan fyddant yn llawn dŵr. Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac rydym yn debygol o weld mwy ar hyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae CNC hefyd yn gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i edrych ar y ddeddfwriaeth ynghylch tipiau ac rydym wedi rhoi rhywfaint o gyngor iddynt ar rywfaint o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud, yn enwedig ar archwiliadau cronfeydd dŵr.

48. **Coetiroedd Glastir:** Ym Mynegi Ddiddordeb (EOI) 9 ar hyn o bryd ac yn aros i EOI 10 ar gyfer Creu Coetir Glastir gael ei gyflwyno. Rydym yn edrych ar faint o geisiadau rydym yn eu derbyn ac yn canfod a darparu adnoddau ar eu cyfer o fewn CNC i ddarparu'r gwasanaeth dilysu ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae llawer o waith parhaus yn gysylltiedig â'r ceisiadau sy'n dod i mewn gan Lywodraeth Cymru a sicrhau bod gennym yr ansawdd a'r nifer cywir o staff ar waith i ymdrin â cheisiadau mewn modd amserol.

49. **Rheoliadau Amaethyddiaeth**: Cyhoeddwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 fis diwethaf. Mae hyn wedi creu llwyth gwaith mawr posibl i CNC yn y dyfodol i oruchwylio'r rheoliadau. Mae gwaith gyda Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo ac mae cyfarfod o Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol wedi'i drefnu ar gyfer yn ddiweddarach yr wythnos hon i drafod y rheoliadau hyn.

50. **Afancod:** Mae CNC wedi derbyn cais gan Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i ryddhau afancod i Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi. Nid yw'r cais hwn wedi'i benderfynu eto, ond pan fydd penderfyniad wedi'i wneud bydd y gwahanol gyfryngau a CNC yn cael gwybod canlyniad yr ystyriaeth honno. Mae CNC hefyd wedi derbyn cais am ryddhad graddol i Ddalgylch Dyfi. Y cynnig hwn yw cynnal astudiaeth 5 mlynedd, ac rydym wrthi'n disgwyl y cyflwyniad a'r wybodaeth ategol i gefnogi'r cais. Unwaith y byddwn yn fodlon ein bod wedi derbyn y cais cyflawn, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac yn sicrhau bod yr adroddiadau a'r wybodaeth berthnasol ar gael i bob parti.

51. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod rhannu'r llwyth ffosffad i'r gwahanol sectorau yn allweddol i'r gwaith hwn, a meddyliodd tybed pa mor fuan mae

CNC yn gobeithio gwneud hyn. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod amryw o atebion modelu yn cael eu defnyddio i geisio dod o hyd i unrhyw arwyddion, a'r gobaith yw cael arwydd cynnar mewn wythnosau yn hytrach na misoedd.

***PG 09 Mawrth: Bob Vaughan, CNC, i holi am amserlen ar gyfer y gwaith ffosffad a rhannu gyda'r grŵp.***

52. Soniodd Anthony Geddes, Confor, fod Swyddogion Coetir Glastir yn gallu cynnal archwiliadau ar hyn o bryd ond, ar wahân i fynd allan i ddelio ag achosion o dorri trwyddedau cwympo coed, mae'n ymddangos bod llawer o feysydd eraill CNC yn dal i fod o dan gyfyngiadau symud o ran ymweliadau safle, a meddyliodd tybed a oes unrhyw gyfathrebiad mewnol ar sut y bydd y 'datgloi' hwn yn cael ei drin. Dywedodd Huwel Manley, CNC, fod pethau'n cael eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau cyfyngiadau symud Covid-19 Llywodraeth Cymru ac y bydd gwaith maes 'normal' yn ailgychwyn wrth i gyfyngiadau gael eu llacio. Ar hyn o bryd, mae trwyddedau cwympo coed newydd yn cael eu rhoi o bell gan ddefnyddio ffotograffiaeth o'r awyr. Mae gan Confor bryderon ynghylch trwyddedau cwympo coed, ymweliadau maes sy'n gysylltiedig â thrwyddedau cwympo coed, ymweliadau ecolegol gofynnol a cheisio cadw'r gadwyn cyflenwi pren breifat i weithredu'n ddidrafferth. Dywedodd Huwel y byddai'n ystyried y posibilrwydd o grwpio hyn gyda maes gwaith masnachol CNC, sydd wedi bod yn flaenoriaeth gydol cyfyngiadau symud Covid. Eglurodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC yn asesu'r holl waith yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu o fewn canllawiau'r llywodraeth.

53. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, a ellir nodi hen fwyngloddiau metel yng Nghymru lle mae triniaeth wedi digwydd ar y safle ac a all gwahanol fathau o lystyfiant helpu i nodi ble mae'r safleoedd hyn. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod llawer o wybodaeth hanesyddol ddefnyddiol yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i'r hen fwyngloddiau metel hyn. Mae synhwyro o bell hefyd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i nodi hen safleoedd mwyngloddio, dod o hyd i asedau a helpu i sefydlu faint o ddŵr sydd mewn tipiau.

54. Soniodd Huwel Manley, CNC, fod ychydig o safleoedd ar draws yr Ystâd Goetir yn y De lle mae tua 106 neu 107 o safleoedd mwyngloddio yn bresennol. Gall hyn achosi rhai problemau bach gyda rhai o'r llennyrch a allai fod wedi'u gwerthu, yn enwedig o ran echdynnu ac amserlenni.

## Eitem 6 Datganiadau Ardal

55. Rhannodd Russell De'Ath a Nichola Taylor, CNC, rai syniadau a gwybodaeth am y gweithdy arfaethedig sydd ar y gweill.

56. Rhoddodd Russell drosolwg o'r gweithdy blaenorol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2019 a archwiliodd gyfleoedd i gydweithio drwy'r broses Datganiadau Ardal. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i wrando ar ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir, i chwilio am rai meysydd cyffredin o ddiddordeb ac i archwilio'r rhwydweithiau dibynadwy o bwy mae pobl yn troi atynt am gyngor ac arweiniad dibynadwy. Yn y digwyddiad, trafododd y grŵp sut y gallai Datganiadau Ardal a rhwydweithiau hwyluso rhai o'r cyfleoedd i sicrhau manteision cadarnhaol i'r sectorau ffermio, bwyd a choedwigaeth.

57. Er mwyn adeiladu ar y sgyrsiau cadarnhaol o'r gweithdy cyntaf hwnnw, cynigiwyd sesiwn gweithdy arall i glywed y diweddaraf am y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud

gyda Datganiadau Ardal ac annog mwy o'r trafodaethau cadarnhaol hynny. Gofynnodd Russell am fewnbwn y grŵp i helpu i ddylunio'r gweithdy arfaethedig sydd ar y gweill ac a gynhelir naill ai ym mis Ebrill neu ddechrau mis Mai.

58. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn fecanwaith cyflawni allweddol rydym am ei gysoni â chyfleoedd Datganiadau Ardal. Rhannodd Nichola ei sgrin a oedd yn crynhoi'r cyfleoedd yn Natganiad Ardal y Canolbarth a chanlyniadau posibl. Trafodwyd dulliau cydweithredol ar gyfer Datganiad Ardal y Canolbarth hefyd.

59. Gofynnodd y Cadeirydd sut beth allai hyn fod a sut y caiff ei sefydlu fel y gellir datblygu rhywbeth penodol. Esboniodd Russell fod rhai grwpiau dalgylch eisoes yn bodoli. Bydd y sesiwn gweithdy yn canolbwyntio ar rannu syniadau ac adeiladu ar yr hyn sydd gennym hyd yma.

60. Soniodd Dennis Matheson, TFA, y bydd Ardal y Gogledd-ddwyrain yn cynnal cyfarfod ar ddiwedd y mis i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae Dennis wedi mynychu dau gyfarfod yn Wrecsam ac fe'i synnwyd yn fawr ar y diffyg gwybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd mewn grwpiau a sefydliadau eraill. Roedd y ddwy sesiwn ar greu coetiroedd a rheoli tir yn gynaliadwy, ac ni chafwyd unrhyw wybodaeth o gwbl gan lunwyr y Datganiad Ardal am waith y grwpiau eraill fel Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol, y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Coetir na'r problemau mae tenantiaid yn eu hwynebu ar y ddau hyn. Y peth mwyaf annisgwyl oedd mai dim ond dau berson oedd yno oedd â chefndiroedd ffermio, allan o tua 40 o bobl. Mae cyswllt rhwng y gwahanol grwpiau yn bwysig iawn gan fod llawer o'r gwaith eisoes wedi'i gynnwys, ond mae'n ymddangos ei fod yn mynd yn sownd yn y grŵp penodol hwnnw ac nad yw eraill yn ei ddefnyddio. Mae mynediad cyhoeddus hefyd yn bwnc y mae angen mynd i'r afael ag ef. Dywedodd Russell fod Ardal y Gogledd-ddwyrain wedi bod yn edrych ar sut y gallant wahodd a chynnwys mwy o ffermwyr a rheolwyr tir yn eu trafodaethau. Er y gall fod bwlch mewn gwybodaeth, mae'r bobl sy'n arwain y gwaith hwn yn cymryd golwg eang ar draws pob un maes polisi, felly mae'n dipyn o her i ddeall beth sy'n digwydd ar draws pob maes ac maent yn gwneud eu gorau glas i gefnogi.

61. Awgrymodd Bob Vaughan, CNC, fod angen nodi a mynd i'r afael â'r materion cyffredin ar draws y gwahanol Ddatganiadau Ardal, a gofynnodd a oes gan y grŵp hwn gyfraniad i'w wneud wrth fwrw ymlaen â rhai o'r rheini. Gallai'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru o amgylch y cynllun ffermio newydd a sut y gall hynny gyd-fynd â Datganiadau Ardal fod yn ffocws i'r grŵp, os yw'r gynulleidfa'n barod. Cytunodd Russell a dywedodd mai'r uchelgais hirdymor yw creu safbwynt cyffredin drwy Fforwm Rheoli Tir Cymru ar y cyfraniad y gall Datganiadau Ardal ei wneud wrth gefnogi amaethyddiaeth a choedwigaeth yng Nghymru. Dywedodd Bob fod angen i bob un ohonom edrych ar y rhestr o faterion cyffredin ledled Cymru, yn ogystal â rhai penodol sydd wedi'u lleoli mewn rhai Ardaloedd, ac yna ymgysylltu i bennu'r hyn sydd angen ei wneud.

62. Cydnabu Hedd Pugh, NFU Cymru, y bydd y gweithdy'n debygol o fod ar Microsoft Teams. Gofynnwyd am gyfarfod arall gyda'r gymuned ffermio gan nad oedd digon o bobl o'r gymuned ffermio yn mynychu'r cyfarfodydd Datganiadau Ardal lleol. Mae Hedd wedi mynychu cyfarfodydd y Gogledd-ollewin, a dim ond ychydig o ffermwyr oedd yn bresennol. Felly, byddai grŵp i ffermwyr yn helpu i ymgysylltu eto. Dywedodd Russell y

bydd y gweithdy sydd ar y gweill yn cael ei dargedu at ffermwyr a choedwigwyr drwy'r gwahanol rwydweithiau sefydliad i geisio cynnal y sgyrsiau.

63. Esboniodd Anthony Geddes, Confor, ei bod hi'n amlwg o'i brofiad gyda gweithdai Datganiadau Ardal y mae wedi ymgysylltu â hwy hyd yma, bod pobl yn ei chael yn anodd amgyffred yr allbynnau gweladwy a’u bod yn dechrau blino ar Ddatganiadau Ardal. Nid yw hyn yn golygu nad oes diddordeb gan bobl ond, yn hytrach, eu bod yn ceisio pennu sut mae gweithredu Datganiad Ardal ym mha bynnag ranbarth yng Nghymru yn dechrau creu cyfleoedd i fusnesau a thirfeddianwyr gysylltu a gweld y manteision cadarnhaol. Mae llawer o sgyrsiau ar hyn o bryd, ond byddai'n helpu i weld rhywfaint o waith prosiect go iawn fel y gall pobl deimlo'r budd a dechrau ymgorffori rhywfaint o'r gwaith hwn mewn tirwedd gyfarwydd. Dywedodd Anthony ei bod hi'n anodd gofyn i goedwigwyr, syrfewyr a chynghorwyr amaethyddol proffesiynol hyfforddedig barhau i roi o'u hamser pan nad yw pethau'n symud ymlaen. Mae rhwystredigaeth gyffredinol, ac mae angen rhywbeth i ail-gynnau diddordeb ac ailddatblygu ymgysylltiad. Cytunodd Russell y bydd gweld rhai o fanteision pendant y gwaith hwn yn bwysig iawn i'w rannu.

64. Awgrymodd Russell y dylid edrych ar y cyfleoedd a'r manteision sydd ar gael ar gyfer defnyddio data gofodol, gwybodaeth, tystiolaeth a mapiau a manteisio ar gyllid posibl megis ymyriadau Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol, storio carbon, cyfleoedd i greu coetiroedd, cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, dwysáu cynaliadwy a chyfleoedd i wella iechyd a lles cymunedau. Bydd y gweithdy'n canolbwyntio ar rai cwestiynau ynghylch ble mae ffermwyr, rheolwyr tir a choedwigwyr yn mynd i gael cymorth a chyngor technegol sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau. Amlinellodd Russell rai cwestiynau posibl i'w harchwilio drwy'r gweithdy, megis:

- A oes gan ddata gofodol gyfraniad i'w wneud mewn systemau bwyd, ffermio a choedwigaeth?

- Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chaffael ar hyn o bryd?

- Sut ydych chi'n cael y cydbwysedd cywir o wybodaeth leol (e.e. gwybodaeth am eich tir eich hun) a'r data sy'n deillio o ffynonellau mwy technegol?

- Beth yw'r raddfa pan ddaw'r data'n ystyrlon?

65. Soniodd y Cadeirydd fod angen rheswm da i bobl gymryd rhan a beth yw'r manteision penodol sy'n deillio o'r gweithdy.

66. Soniodd Fraser McAuley, CLA, fod llawer o gyfarfodydd Datganiad Ardal yn cael eu cynnal ledled Cymru. Mae'r CLA yn annog eu haelodau fel unigolion i gymryd rhan ond maent wedi cael rhywfaint o adborth ynglŷn â'r diffyg manteision gweladwy i'r rhai sydd yn cymryd rhan. Soniodd Fraser fod pethau'n debygol o fynd yn haws drwy ddatblygu Bil Amaethyddiaeth Cymru a'r ymgynghoriad ar sut y gallai'r cynlluniau hynny weithio ar lawr gwlad, a allai greu mwy o gyfle ar gyfer y gweithdai Datganiad Ardal hyn.

67. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, y gofynnir i ni wneud sylwadau ar sut mae'r Datganiadau Ardal yn cyd-fynd â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond nid ydym wedi cael unrhyw fanylion am y cynllun eto. Gan gyfeirio at y siart cylch a ddangoswyd yn gynharach, mae ochr 'yr Amgylchedd' yn dangos ailwampio opsiynau Glastir ac mae

themâu yno y gall tirfeddianwyr eu hadnabod ac ymgysylltu â hwy. Ond mae'r ddwy adran arall ar 'yr Economi' a 'Chymdeithasol' bron yn addasiad o ddatganiadau Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol heb unrhyw fanylion yno i helpu tirfeddianwyr i wybod sut y gallant ymgysylltu â'r prosesau hyn. Gellir cymhwyso'r un peth i'r Datganiad Ardal yn y Canolbarth, roedd y cyfan yn canolbwyntio ar yr amgylchedd ond dylai fod yn fwy hollgynhwysol. Cytunodd Russell ei bod yn sefyllfa o 'p’un ddaeth gyntaf - yr ŵy ynteu’r iâr’ o ran cysylltu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd a Datganiadau Ardal. Soniodd Bob Vaughan, CNC, y byddai'n fater gwirioneddol o golli cyfle pe baem yn disgwyl i'r cynllun gael ei gyflwyno yn 2024. Dylai Fforwm Rheoli Tir Cymru a grwpiau eraill edrych ar yr hyn yr hoffem ei weld yn digwydd, gan ddatblygu enghreifftiau lle gall pethau weithio mewn realiti, yn hytrach na dim ond eu modelu, ac yna cyfleu'r enghreifftiau hyn i Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn gyfle ar hyn o bryd i gael rhywfaint o ddylanwad go iawn, ond mae angen i ni fwrw ymlaen a symud ymlaen. Cytunodd y Cadeirydd ac awgrymodd mai mater i'r gweithdy yw symud hyn yn ei flaen a helpu pobl i ddeall drwy gynlluniau peilot neu enghreifftiau. Gofynnodd Russell i'r grŵp rannu enghreifftiau o fentrau ar raddfa tirwedd sydd wedi llwyddo i sicrhau manteision ehangach fel y gellir eu harchwilio'n fanylach, darganfod y pwyntiau llwyddiant hanfodol a sefydlu'r mecanweithiau cymorth. Awgrymodd y Cadeirydd mai un enghraifft fyddai gwaith Cyswllt Ffermio ac Agrisgôp a weithiodd ar fasnau afonydd gyda ffermwyr, ac un arall fyddai'r Game Wildlife and Conservation Trust (GWCT) a'u cysyniad Clwstwr Ffermwyr.

***PG 10 Mawrth: Y grŵp i rannu enghreifftiau o gynlluniau sydd wedi sicrhau manteision ehangach a dod â'r wybodaeth i'r gweithdy Datganiadau Ardal i archwilio a thrafod ymhellach.***

68. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, y bydd yn anodd cael ffermwyr i ymgysylltu wrth sôn am systemau GIS a data gofodol. Mae angen prosiectau enghreifftiol i ddangos sut y bydd pethau'n gweithio ar lawr gwlad.

69. Soniodd Anthony Geddes, Confor, ei bod hi'n anodd cadw i fyny â'r gwahanol blatfformau a ddefnyddir i gynnal gwahanol sgyrsiau a digwyddiadau, er enghraifft, Yammer, Facebook a gwefan CNC. Nid yw hi'n glir a yw'r un wybodaeth yn cael ei harddangos ar draws yr holl wahanol blatfformau. Mae angen rhywfaint o barhad i ddeall ble mae'r wybodaeth yn cael ei harddangos, pa adnoddau i edrych arnynt ar gyfer diweddariadau a sut i ymgysylltu. Negeseuon cyson a dealltwriaeth gliriach o ble i ddod o hyd i wybodaeth a diweddariadau. Dywedodd Russell y bydd yr adborth hwn yn cael ei ystyried a bod ceisio cymryd ymagwedd seiliedig ar le a dod â phopeth at ei gilydd ar lefel genedlaethol yn her fawr.

## Eitem 7 Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Aelodau eraill o Fforwm Rheoli Tir Cymru

70. **Undeb Amaethwyr Cymru:** Soniodd Bernard Griffiths fod Undeb Amaethwyr Cymru yn ymwneud â'r Grŵp Mynediad at Ddŵr Mewndirol, sef Is-grŵp Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, a bod rhai rhanddeiliaid yn poeni am barchu perchnogaeth glannau afon. Bu Undeb Amaethwyr Cymru yn ymwneud yn helaeth â'r Grŵp Mynediad at Amaethyddiaeth i gael mynediad i'r tir ac mae'r grwpiau arbenigol hynny wedi dod i ddiwedd eu cyfarfodydd. Cafwyd un cyfarfod yn edrych ar themâu trawsbynciol gan bob un o'r grwpiau arbenigol, gan gynnwys edrych ar hamdden cyfrifol, mynediad

cyfartal, gweithgareddau masnachol a digwyddiadau ar hawliau tramwy cyhoeddus. Cynhaliodd Undeb Amaethwyr Cymru seminar yr wythnos diwethaf ar ymosodiadau da byw a thrafododd y ffordd mae pobl yn mynd â'u cŵn allan. Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu Dyfed Powys. Awgrymodd Bernard efallai fod hwn yn bwnc y gallai Fforwm Rheoli Tir Cymru ei gynnwys ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn ymwneud ag Adolygiad Adar Gwyllt CNC ac maent yn falch iawn bod CNC wedi gwrthwynebu Wild Justice. Bydd trafodaethau ar y grŵp hwnnw i geisio datblygu strategaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae amryw o ymgynghoriadau'n parhau mewn perthynas â defnydd tir, gan gynnwys y Cod Cyfathrebu Electronig lle rydym yn ceisio cael system deg i dirfeddianwyr gan nad ydynt yn cael rhent teg am y mastiau ffonau symudol sydd ar eu tir. Mae'r Rheoliadau Dŵr yn drafodaeth fawr arall ac mae Undeb Amaethwyr Cymru yn ymwneud yn helaeth â rhoi gwybod i'w haelodau beth i'w ddisgwyl drwy sesiynau briffio a chyfarfodydd rhanddeiliaid.

71. **NFU Cymru:** Soniodd Hedd Pugh fod NFU Cymru yn ymwneud yn helaeth â'r ymgynghoriadau ar y Papur Gwyn Amaeth a'r Rheoliadau Dŵr. Gofynnodd Hedd pryd y bydd penderfyniad yn debygol o gael ei wneud ynghylch trwyddedau ar Afancod. Nid oedd Bob Vaughan, CNC, yn siŵr am ddyddiad ond bydd yn edrych ar yr amserlen.

***PG 11 Mawrth: Bob Vaughan, CNC, i holi am amserlen ar gyfer y penderfyniad ar drwyddedau Afancod a rhoi adborth i'r grŵp.***

72. **CFfI Cymru:** (Collodd Sian Thomas gysylltiad rhyngrwyd yn ystod y cyfarfod, rydym wedi gofyn a oes unrhyw ddiweddariadau gan CFfI Cymru).

73. **Confor:** Soniodd Anthony Geddes fod Confor yn brysur yn gweithio gyda'i aelodau ar ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn Amaeth, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ddiwedd y mis. Derbyniodd Confor rai sylwadau diddorol ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i goedwigaeth. Pwnc sy'n parhau i fod yn arwyddocaol yw'r materion datblygu a symleiddio sydd gan aelodau gyda Creu Coetir Glastir. Mae clefyd coed ynn hefyd yn parhau i fod yn broblem a bydd diweddariad gan Lywodraeth Cymru ynghylch delio â chlefyd coed ynn yn ystod yr wythnosau nesaf. O sefyllfa marchnad, mae'n anhygoel o brysur, mae'r marchnadoedd coed yn masnachu'n dda ar hyn o bryd, gyda galw cryf yn gysylltiedig â thai, ac mae'r farchnad ffensio ar gyfer amaethyddiaeth ar fin deffro eto. Os oes gan unrhyw aelodau goetir a'u bod yn ystyried dechrau ei reoli, mae'n amser gwych i wneud hynny. Soniodd Anthony hefyd fod pryder parhaus ein bod ni'n gweld datgoedwigo neu waith cynaeafu cynaliadwy o ansawdd uchel. Mae'r sylw diweddar yn y wasg ynghylch datgoedwigo yn ddryslyd, gyda chwympo coed yng Nghymru yn erbyn datgoedwigo ar gyfer amaethyddiaeth dramor. Mae Confor yn ceisio bod yn glir iawn gyda'r negeseuon, ac mae'r corff yn ymwybodol bod rhai pobl yn poeni am goedwigoedd a dyfir ar gyfer cynhyrchu coed gan feddwl na ddylid eu cwympo, ond mae ganddo ddiben a chaiff ei ailstocio yn unol â Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.

74. **CLA:** Soniodd Fraser McAuley fod y Papur Gwyn Amaeth yn cymryd llawer o amser a bod CLA wedi mynd ag ef o gwmpas rhai o'r pwyllgorau cangen yn ogystal â dod â rhai agweddau penodol gerbron y pwyllgorau cenedlaethol. Bydd drafft terfynol yn cael ei drafod yng nghyfarfod Polisi Cymru a gynhelir ar 9 Mawrth. Mae ymgysylltiad aelodau ar y pwnc hwn wedi bod yn dda. Mae'r cyhoeddiad ar y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol wedi cymryd amser hefyd, a bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Gwener. Mae'r CLA wedi bod yn delio ag

ymholiadau gan aelodau am y rheoliadau newydd a'r hyn y byddant o bosibl yn ei olygu iddynt a sut y bydd yn effeithio ar eu busnesau. Mae'r CLA wedi bod yn gweithio ar ei Hadroddiad Strategaeth Ddŵr a bydd hefyd yn llunio Adroddiad Cynllunio maes o law.

75. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson fod y TFA hefyd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad Papur Gwyn a'r gallu i denantiaid gael mynediad ato. Mae'r bygythiadau gwirioneddol i denantiaethau yn cynnwys y rhaglen cynllunio coed a hefyd y rheolau Parth Perygl Nitradau (NVZ). Ysgrifennodd y TFA yn uniongyrchol at y Gweinidog i fynd i'r afael â'r materion hyn, a arweiniodd at gyfarfod ychydig wythnosau'n ôl, lle cafwyd sgwrs gadarn. Mae'r TFA bellach yn disgwyl ymateb gan y Gweinidog gyda ffyrdd o oresgyn y problemau hyn.

## Eitem 8 Diweddariadau Fforymau

76. Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg cryno o'r diweddariadau gan Fforymau eraill:

77. **Is-grŵp Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol:** Cyfarfu'r grŵp ym mis Ionawr ac mae'n parhau i weithio drwy'r argymhellion â blaenoriaeth drwy nodi camau gweithredu penodol i'w symud ymlaen a'u cyflawni. Mae cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i aildrefnu a nawr caiff ei gynnal ar 5 Mawrth 2021 yn hytrach na 22 Chwefror 2021, yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf am Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

78. **Fforwm Dŵr:** Cyhoeddwyd ymgynghoriadau Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru a Dyfrdwy ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft ym mis Rhagfyr. Anogir ymatebion cynnar yn ystod y cyfnod ymgynghori ac maent ar gael ar yr hyb ymgynghori sydd ar agor tan 22 Mehefin.

    Bob blwyddyn, mae'r Fforwm Dŵr yn adrodd ar berfformiad cwmnïau dŵr ac yn cynnal cyfarfodydd craffu gyda'r cwmnïau dŵr, Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd i adolygu perfformiad a thrafod cynlluniau ar gyfer gwella. Cyhoeddwyd adroddiadau perfformiad Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2019 ar wefan CNC ar 2 Hydref 2020. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm Dŵr ar 3 Mawrth.

79. **Fforwm Pysgodfeydd:** Mae cyfarfod nesaf y Fforwm Pysgodfeydd wedi'i drefnu ar gyfer 1 Ebrill ac mae’r Fforwm eisoes wedi derbyn rhai ceisiadau am eitemau Agenda. Bydd papur diweddaru yn cael ei ddarparu i'r aelodau. Bydd Bob Vaughan, CNC, yn mynychu cyfarfod y Fforwm Pysgodfeydd ym mis Ebrill a gofynnodd i'r grŵp a oes gan unrhyw un rhywbeth yr hoffent iddo ei gyflwyno yn y cyfarfod.

## Eitem 9 Adroddiad Creu Coetir Fforwm Rheoli Tir Cymru

80. Soniodd y Cadeirydd fod Chris Blake, CNC, a oedd yn Cadeirio'r Grŵp hwn, yn anffodus wedi ymddiswyddo a bod y grŵp yn chwilio am Gadeirydd newydd.

81. Darparwyd ymateb ysgrifenedig ar gyfer Fforwm Rheoli Tir Cymru a anfonwyd at yr aelodau fel diweddariad cyn y cyfarfod hwn. Ni allai unrhyw un o'r tîm fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. Os oes gan aelodau unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen, gellir trosglwyddo’r rhain a mynd i'r afael â nhw

82. Soniodd Bob Vaughan, CNC, fod Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi comisiynu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar yr wybodaeth a llunio adroddiad. Mae'r papur diweddaru a roddwyd i aelodau'r Fforwm yn nodi'r mathau o faterion a heriau ac yn dechrau ystyried a yw gwaith eisoes ar y gweill neu a oes angen iddo ddechrau o'r newydd, ac mae'n nodi hefyd pwy sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r gwaith. Gofynnodd Bob i'r grŵp a oes rhai meysydd y mae aelodau'r Fforwm am fod yn rhan ohonynt o ran datblygu'r gwaith a'r camau gweithredu. Gofynnodd Bob hefyd i aelodau'r grŵp beth maent am ei wneud â'r adroddiad, yn benodol a ddylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a gofyn i'r Llywodraeth helpu i gyflawni'r gwaith a bwrw ymlaen ag ef.

83. Dywedodd Anthony Geddes, Confor fod yr adroddiad yn nodi sawl maes gweithredu sy'n werth eu datblygu ar lefel uwch gyda'r Gweinidog, y byddai Confor yn ei gefnogi. Gofynnodd Anthony a yw'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy John Travis a Ceri Witchard i'w anfon ymlaen at y Gweinidog neu a ddylai'r Fforwm ysgrifennu'n uniongyrchol at y Gweinidog i ofyn am sylwadau ac ystyriaeth ar y camau a godwyd.

84. Soniodd Tim Kirk, Confor, mai'r broses ymgeisio a'r manylion yw'r agweddau pwysicaf a bod symleiddio hynny a'i gwneud yn haws yn hollbwysig. Pryderon eraill yw argaeledd tir, planhigfeydd, ansicrwydd cyflenwad a dod â ffermwyr a choedwigwyr at ei gilydd.

85. Gofynnodd Anthony Geddes, Confor, beth yw'r amserlen ar gyfer bwrw ymlaen â hyn. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen bwrw ymlaen ag ef ac ni ddylai fynd ar goll neu ei anwybyddu ar ôl yr etholiad. Soniodd Bob Vaughan, CNC, fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu'r ddogfen, ond mae angen i ni benderfynu fel grŵp beth rydym am ei wneud ag ef.

***PG 12 Mawrth: Bob Vaughan ac Anthony Geddes i drafod y ddogfen gyda John Travis a chael ymgysylltiad ar ba mor bell y gellir mynd â'r ddogfen.***

## Eitem 10 Manylion y cyfarfodydd sydd i ddod

86. Mae'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd eleni wedi eu cadarnhau a'r gwahoddiadau wedi eu hanfon:

- Dydd Llun 7 Mehefin 2021
- Dydd Llun 6 Medi 2021
- Dydd Llun 22 Tachwedd 2021 – mae'r cyfarfod hwn wedi'i newid o 29 Tachwedd i 22 Tachwedd oherwydd y Ffair Aeaf, gwahoddiadau newydd i ddilyn.

## Eitem 11 Unrhyw Fater Arall

87. Cofnodion y cyfarfod: Mae cofnodion cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru o 2019 a 2020 wedi'u diweddaru a gellir eu gweld bellach ar wefan allanol CNC yn Gymraeg ac yn Saesneg.

88. Soniodd Dennis Matheson, TFA, ei fod wedi colli rhan gyntaf y cyfarfod oherwydd problemau cysylltu ond ei fod am nodi ei ddatganiad o fuddiant ei fod yn Gyfarwyddwr

Cyfetholedig PONT ond nad yw'n derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol, nad oes ganddo unrhyw hawliau pleidleisio ac nid yw'r TFA yn gyfrifol am unrhyw gyllid.

## Diwedd y cyfarfod